8. Rheoli arian

8.6 Cyfrifon ac archwiliad blynyddol

Rhaid i bob elusen baratoi cyfrifon a sicrhau eu bod ar gael ar gais. Mae'r ddyletswydd i ffeilio cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr gyda'r Comisiwn Elusennau yn gymwys i bob elusen gofrestredig y mae eu hincwm gros yn fwy na £25,000. Hefyd, mae'n rhaid i elusennau gydag incwm gros o fwy na £10,000 anfon Ffurflen Flynyddol wedi'i chwblhau, y mae modd ei chwblhau ar-lein.

Mae ffurf y cyfrifon blynyddol wedi'i dywys gan Ddatganiad Ymarfer Argymelledig, a ddosberthir gan y Comisiwn Elusennau ynghyd â'r Bwrdd Safonau Cyfrifo. Gelwir hwn yn SORP 2005 ac mae'n cynnwys cyfarwyddyd ar gyflwyniad cyfrifon ac yn cynrychioli ymarfer dda.

Mathau o gyfrifon

Gellir paratoi cyfrifon elusen naill ai ar ddull derbyniadau a thaliadau neu ddull croniadau. Bydd y dull sydd ei angen yn dibynnu ar incwm yr elusen ac a yw wedi cael ei sefydlu fel cwmni neu beidio:

- **Derbyniadau a thaliadau.** Dyma'r dull symlaf o'r ddau ddull a gellir ei fabwysiadu os oes gan elusen nad yw'n gwmni incwm gros o £250,000 neu lai yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys cyfrif sy'n crynhoi'r holl arian a dderbyniwyd ac a dalwyd gan yr elusen yn y flwyddyn ariannol, a datganiad sy'n rhoi manylion am ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chaniateir i gwmnïau elusennol gan y gyfraith cwmnïau i fabwysiadu'r dull hwn.

- **Croniadau.** Rhaid i elusennau nad ydynt yn gwmnïau gydag incwm gros o fwy na £250,000 yn ystod y flwyddyn ariannol, a phob cwmni elusennol baratoi eu cyfrifon ar ddull croniadau yn unol â'r SORP. Maent yn cynnwys mantolen, datganiad o weithgareddau ariannol a nodiadau esboniadol. Mae'n ofynnol i'r cyfrifon hyn, yn nhermau cyfrifyddu, roi darlun 'gwir a theg'.

Archwiliad ariannol neu archwiliad annibynnol?

Ac eithrio elusennau GIG, dim ond elusennau gydag incwm gros o fwy na £25,000 yn eu blwyddyn ariannol sy'n rhaid cael archwiliad annibynnol neu ariannol o'u cyfrifon - yn is na'r trothwy hwnnw, mae angen archwiliad allanol o gyfrifon dim ond os yw hyn yn ofynnol gan ddogfen lywodraethol yr elusen.

Mae'r union fath o archwiliad sydd ei angen yn dibynnu ar incwm ac asedau'r elusen. Yn fras, mae angen archwiliad annibynnol os yw'r incwm gros rhwng £25,000 a £500,000 ac mae angen archwiliad ariannol os yw'r incwm gros yn fwy na £500,000.

Hefyd, bydd angen ariannol archwiliad os yw cyfanswm yr asedau (cyn rhwymedigaethau) yn fwy na £3.26miliwn, ac mae incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000.

Paratoi derbynebau a thaliadau ar gyfer eich cyfrifon blynyddol

Mae cyfrifon derbynebau a thaliadau yn crynhoi symudiadau ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd angen hefyd datganiad yn rhestru asedau a rhwymedigaethau (yn lle mantolen ar gyfer cyfrifon croniadau).

Efallai bydd angen i chi gwblhau hyd at dri chyfrif derbynebau a thaliadau, un yr un ar gyfer:

- y cronfeydd anghyfyngedig (dylai pob elusen gael y rhain)y cronfeydd incwm cyfyngedig (mae'r rhain gan lawer o elusennau)
- unrhyw gronfeydd gwaddol (mae'r rhain gan rai elusennau).

Gellir rhannu derbynebau a thaliadau mewn i ddau gategori:

Mae **incwm gros** yn cynnwys:

- rhoddion (yn cynnwys cyfamodau, rhoddion Gift Aid a'r dreth a ad-delir), grantiau, anrhegion, etifeddiaeth a thanysgrifiadau;
- derbynebau gros am werthiant nwyddau neu wasanaethau i hyrwyddo amcanion yr elusen;
- derbynebau gros am godi arian a gweithgareddau eraill i gynyddu'r gronfa;
- incwm buddsoddi (yn cynnwys llog, difidend, ad-daliad treth a rhent);
- trosglwyddo gwaddol i gronfeydd incwm, neu wariant y gwaddol ar gyfer incwm.

Mae **gwariant llawn** yn cynnwys:

- costau cenhedlu cronfeydd yn cynnwys costau codi arian a chyhoeddusrwydd, costau buddsoddi eiddo a ffioedd rheoli eiddo;
- gwariant i hyrwyddo amcanion yr elusen yn cynnwys grantiau, rhoddion, cost y gweithgareddau (nwyddau a gwasanaethau) a chostau cefnogi;
- costau rheoli a gweinyddu'r elusen.

Gall y categorïau yma gynnwys y llog a delir.

Gellwch gyfeirio at *CC16: Receipts and payments accounts pack* am beth sydd ddim yn gynwysedig yn y gwariant llawn a'r incwm gros.

Dylai taliadau am bwrpasau tebyg (e.e. cyflogau) a derbynebau am bwrpasau tebyg (e.e. rhoddion) gael eu cyfuno a ddim eu rhoi ar wahân. Wrth gwrs, gwell fyddai dangos yn glir eitemau sylweddol (e.e. grant mawr) ar wahân.

Nid yw rhoddion mewn nwyddau ac incwm anghyffwrdd yn cael eu cynnwys mewn cyfrifon derbynebau a thaliadau. Fodd bynnag, efallai bydd yr ymddiriedolwyr yn hoffi cynnwys nodyn yn yr adroddiad blynyddol neu yn nodiadau'r cyfrifon.

Beth arall sy'n mynd gyda'r cyfrifon?

Bydd cyfrifon elusennau sy'n defnyddio cyfrifon derbynebau a thaliadau ac a archwilir gan arolygwr allanol yn cynnwys pedair dogfen berthnasol:

Paratoir tair gan yr ymddiriedolwyr:

- Adroddiad Blynyddol yr ymddiriedolwyr - mae hwn yn rhoi manylion am weithgareddau'r elusen yn y flwyddyn.
- Un neu fwy o gyfrifon derbynebau a thaliadau - mae'r rhain yn dangos arian sy'n dod mewn ac yn mynd allan am y flwyddyn ar gyfer cronfeydd anghyfyngedig, cyfyngedig a gwaddol.
- Datganiad asedau a rhwymedigaethau - mae hwn yn rhestru'r ddau ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratoir un gan arolygwr annibynnol:

- Adroddiad yr Arolygwr Annibynnol - mae hwn yn rhoi sylwadau'r arolygwr ar y cyfrifon.

Gwybodaeth bellach

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Cyllid a Thollau EM
www.hmrc.gov.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
post@medrwnmon.org
www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:06/05/2010

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk